| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Chwefror 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol / Cyfarwyddwr Corfforaethol, Moderneiddio a Lles** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr, Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru (CGGC) a rhannu cynnwys ei Adroddiad Blynyddol cyntaf.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth am waith Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i aelodau ystyried a rhoi sylwadau ar waith CGGC fel y disgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Mae CGGC yn brosiect ar y cyd rhwng 6 Chyngor gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n unigryw yng Nghymru gan ei fod yn cynnwys gwasanaethau plant ac oedolion ac mewn partneriaeth â'r GIG. Mae'n cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ddinbych ac yn atebol i Fwrdd Rheoli, a gadeirir gan Sally Ellis. Mae Rheolwr CGGC yn darparu adroddiadau diweddaru rheolaidd i Fwrdd y Rhaglen Iechyd a Chymdeithasol.

Mae gan CGGC bedair prif swyddogaeth:

- Sicrhau gwerth am arian yn y lleoliadau cost uchel presennol
- Dod o hyd i leoliadau newydd trwy broses agored a sicrhau gwerth am arian
- Cydlynu ymagwedd ranbarthol a monitro ansawdd darpariaeth cartrefi gofal
- Comisiynu strategol, gan weithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r farchnad i sicrhau y gall gwasanaethau fodloni'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae CGGC yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol:

- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Moderneiddio’r cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Yn 2012/13, cyfraniad Cyngor Sir Ddinbych i’r gost flynyddol o gynnal CGGC oedd £11,113

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn £20,000 gan bartneriaid tuag at gostau cynnal tîm y Ganolfan.

Hyd yma, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi canfod gwerth £44,922 o arbedion (dros gyfnod o 3 blynedd, gan gynnwys 12/13 a 13/14 yn cynnwys osgoi costau o £1,608).

Mae CGGC yn monitro ansawdd gofal mewn 25 o gartrefi gofal yn Sir Ddinbych ar ran y Cyngor.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad.**

Cynhaliwyd asesiad o effaith ar gydraddoldeb pan ysgrifennwyd yr Achos Busnes Llawn i ddatblygu’r Ganolfan. Nid oes angen ailadrodd hwn.

**8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd â phob partner ar yr Achos Busnes Llawn. Mae CGGC yn darparu adroddiadau rheolaidd i Fwrdd y Rhaglen Iechyd a Chymdeithasol ac yn ymgynghori â darparwyr a phartneriaid, gan gynnwys staff rheng flaen yn rheolaidd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Mae asesiad risg mewn grym ac yn cael ei fonitro gan Fwrdd Rheoli CGGC

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae erthyglau 6.3.3(b) a 6.3.4(ch) yn amlinellu pwerau Archwilio mewn perthynas â’r mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr
Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru Ffôn: 01824 706637